Ardal Penmaenrhos – Nodiadau Cyfarfod Rhanddeiliaid a Enwebwyd
Dydd Iau 19 Tachwedd 2009

Presennol: Geraint James (GJ) (Pennaeth Statudol Gwasanaethau Addysg)
Dilwyn Price (DP) (Pennaeth Gwasanaethau Gwella Ysgolion)
Emma Bayliss (EB) (Rheolwraig y Cynllun)
Gareth Thomas (GT) (TJB)
Cynan Jones (CJ) (TJB)

Arsylwyr: Cyng. D. W. Smith
Cyng. B. Cossey
Cyng. C. Carlisle

1. Cyflwyniad

Rhoddodd GT gyflwyniad gan esbonio'r gweithdy.

2. Cyflwyniadau

Rhoddodd GJ gyflwyniad ar gynnydd y cynllun hyd yma a datblygiad y ddogfen Ardaloedd i'w Hadolygu. Eglurodd nad yw tudalen 10 o'r ddogfen Ardaloedd i'w Hadolygu yn feirniadaeth o ysgolion iau a babanod ar wahân ac nad oedd yn golygu nad oedd yr ysgolion babanod ac iau yn cynnig y manteision hyn yn awr.

Rhoddodd DP gyflwyniad ar ddata ysgol benodol gan gynnwys gwybodaeth ar 'addas i'r pwrpas', lleoedd gwag a dalgylchoedd. Roedd pob ardal sydd ag ysgol fabanod ac iau yn cael eu trafod yn yr un modd. Roedd gan rai ardaloedd ddiddordeb mewn cyfuno. Cyfeiriodd at dudalen 10 y ddogfen Ardaloedd i'w Hadolygu a dywedodd bod y ddwy ysgol yn cyflawni'r manteision hyn. Nid yw tudalen 10 yn feirniadaeth o'r ysgol a'r modd mae'n gweithredu nawr. Gall y modd mae wedi ei ysgrifennu ar dudalen 10 edrych fel petai cyfuno babanod ac iau yn strategaeth ond nid dyma'r achos ac ymddiheuriadau am hyn. Daeth y manteision a restrir o Dorfaen ac fe'u cymeradwywyd gan Weinidog Cymru fel rhestr o fanteision posibl. Yna rhoddodd DP restr o fanteision ar gyfer ysgolion babanod ac iau ar wahân:

- Ysgolion babanod ac iau yn canolbwyntio ar un cyfnod allweddol yn unig
- Staff yn yr ysgolion hyn yn canolbwyntio eu dysgu a'u haddysgu yn benodol ar gyfer ystod oed y disgyblion
- Staff yn arbenigo mewn un cyfnod allweddol ac yn cael cyfleoedd cyfnod allweddol penodol ar gyfer datblygiad proffesiynol parhaus
- Llwybrau gyrfa staff yn fwy penodol
- Rhoddir cyfleoedd cynyddol i ddisgyblion babanod i dderbyn cyfrifoldebau
- Mae buarth chwarae ar wahân yn caniatáu mwy o gyfleoedd chwarae a datblygiad pendant

Eglurwyd y cyfrifir capasiti ysgol gan ddefnyddio fformiwla a ddarperir gan LICC yn seiliedig ar arwynebedd llawr yr ysgol. Os oedd dosbarth meithrin, ni chynhwysir yr arwynebedd llawr hwn. O ran lleoedd gwag, dim ond disgyblion amser llawn a ystyrir yn y cyfrifiad hwn.

Cyfeiriwyd at ragamcanion disgyblion a sut y cyfrifir hyn - edrychwyd ar y derbyniadau ar gyfer y tair blynedd ddiwethaf ac yna defnyddiwyd cyfartaledd i ragamcanu niferoedd disgyblion. Dros y flwyddyn ddiwethaf, roedd y rhagamcanion ar gyfer pob ysgol yn gywir o fewn 1%. Roedd rhagamcanion disgyblion hefyd yn cael eu hadolygu'n flynyddol. Nodwyd rhagamcanion tai a dywedwyd os byddai adeiladu sylweddol mewn ardal o thua 2000 - 5000 o dai, byddwn yn gofyn i'r adeiladwr ddarparu ysgol newydd.

Cynhyrchwyd y rhestr 'addas i'r pwrpas' trwy adolygiad o Fwletinau Adeiladu a'r awgrymiadau a gafwyd yn y cyfarfodydd ymgynghori cychwynnol. Nid oedd y rhestr yn rhestr o bethau hanfodol ond os adeiladwyd ysgol newydd, byddai'n cynnwys yr holl agweddau hyn. Nodwyd fod y ddogfen yn gywir pan y'u hargraffwyd a byddai unrhyw newidiadau dilynol yn cael eu hadlewyrchu yn y strategaeth ddrafft.

Nodwyd y byddai ysgol leol ym Mhenmaenrhos yn y dyfodol, dim ond mater o benderfynu rhwng cael ysgol fabanod ac iau ar wahân, ysgol a gyfunwyd ar un o'r safleoedd presennol neu ysgol a gyfunir ar safle newydd.

Sesiwn Cwestiwn ac Ateb (C = cwestiwn, A = Ateb, S= Sylw)

C: O ran rhagamcanion disgyblion, a ydych yn cymryd ystyriaeth o adeiladu mwy o dai yn y dyfodol?
A: Fel y nodwyd yn flaenorol, rydym yn cymryd ystyriaeth o ragamcanion o ran adeiladu tai ac rydym yn gwybod y gall y ddwy ysgol dderbyn 100 o ddisgyblion eraill.
S: Mae gan y ddwy ysgol broblem o ran enw da ond maent yn ysgolion da iawn.
S: Angen i ni newid meddylfryd pobl am hyn.
A: Mae'r Awdurdod Addysg yn falch iawn o gael siarad am lwyddiant yr ysgolion hyn gan fod y ddwy ohonynt yn ysgolion da. Rydym eisiau sicrhau nad yw rhieni yn yr ardal yn anfon eu plant i rywle arall. Mae penaethiaid y ddwy ysgol yn cynnig ymweliadau i rieni newydd. Mae pwyntiau da iawn am yr ysgolion hyn ac mae'r ddwy ohonynt yn datblygu cysylltiadau cryf gyda Bryn Elian.
C: Pe byddai lleoedd gwag yn lleihau, a fyddech dal yn trafod cyfuno?
A: Byddem gan ein bod yn ymweld â phob ardal sydd ag ysgolion babanod ac iau ar wahân. Angen trafod os oes diddordeb mewn cyfuno nawr ein bod yn gwybod fod arian cyfalaf unfed ganrif ar hugain ar gael gan LICC i ganiatáu i hyn ddigwydd.

Eglurodd GT y gweithdy. Eisiau gwybod 'Beth sy'n gweithio'n dda ar hyn o bryd?' a 'Beth allwn ei wella?' Bydd popeth a ysgrifennir ar y papur yn cael eu nodi yn ogystal â'r nodiadau yma heno a'u gosod ar y rhyngrwyd. Hefyd gallwch barhau i gyflwyno eich adborth ar yr ymgynghoriad hyd 30 Tachwedd trwy TJB neu'r Gwasanaethau Addysg.

3. Adborth Gweithdy

<u>Tan Y Marian</u>

<u>Beth sy'n gweithio'n dda?</u>

- Cysylltiadau / ymwneud cymunedol – *Flying start*, ffordd o fyw, clwb ieuenctid, NSPCC, RSPCA, clinig babanod, clwb dringo, dawnsio Morris, *Carnival guild of Wales*, Mam a'i phlentyn, *working links*, gwasanaeth carolau, diwrnod amgylcheddol.

- Ymwneud rhieni – gwirfoddolwyr darllen, dysgu teuluol, PTFA

- Cefnogaeth i blant a rhieni

- Clwb brecwast

- Awyrgylch / ethos gofalgar

- Staff – Hapus, croesawgar, cyfeillgar

- Safonau yn gwella

- Digon o adnoddau

- Rhoi cyfleoedd a phrofiadau i'r plant - sesiynau nofio ychwanegol, cerdd, amrywiaeth o gyfleoedd cyfartal, clwb garddio, clwb côr, clwb coginio

- Datblygu dwyieithrwydd ar draws yr ysgol - holl staff

- Parodrwydd i newid/addasu

- Cynhwysol - cefnogaeth ar gyfer ADY/mwy galluog a thalentog (adnabod a gweithredu ar anghenion yn gyflym)

- Gwella'r amgylchedd dysgu – tu allan a thu mewn

- Cysylltiadau da gyda Phenmaenrhos a Bryn Elian

- Defnyddio dulliau addysgu diweddaraf – rhannu ymarfer da gydag ysgolion eraill

<u>Sut allwn wella pethau?</u>

- Codi proffil yr ysgol – cadarnhaol (denu mwy o'r 53%)

- Safonau – cynnal a gwella

- Parhau i ddatblygu'r Gymraeg

- Edrychiad yr ysgol - moderneiddio'r adeilad

- Marchnata'r ardal

- Diogelwch

- Gwella cynaladwyedd (y tu hwnt i ailgylchu)

- Parhau i gydweithio'n dda gyda Penmaenrhos, y fro etc.

Ysgol Penmaenrhos

Beth sy'n gweithio'n dda?

- Gadewch lonydd i ni – dim newid os gwelwch yn dda
- Da - awyrgylch, ethos a gwerthoedd gwych (sylwadau gan bawb)
- Bob tro yn aros o fewn ein cyllideb
- Ysgol gymuned go iawn
- Cysylltiadau da gyda – rhieni, plant, asiantau allanol, capel a'r eglwys, siopau lleol, chwarel, cartrefi preswyl, gweithdai dysgu teuluol
- Lles – plant yn teimlo'n hapus a hyderus gyda phobl aelod o staff, a llwybr diogel i'r ysgol
- Cysylltiadau trosiannol yn gryf ac yn parhau i wella. Hyn yn bwysig i ni.
- Ardal cyfnod sylfaen newydd yn wych
- Cymuned - grŵp chwarae ar y safle
- Mae'r adeilad YN addas i'r pwrpas
- Digon o adnoddau
- Clwb brecwast am ddim
- Staff ardderchog – staff hapus
- Mynediad llawn i'r anabl
- Mae gennym ardal addysg awyr agored
- Defnyddir pob gwagle yn llawn
- Uned ADY – plant o du allan i'r sir a'n hysgol ni – ac yn annog goddefgarwch ym mhob plentyn

Sut allwn wella pethau?

- Gadewch i ni rentu – gan 'Cartrefi Conwy'- ddarn o'r cae gyferbyn – rydym wedi gwneud hyn dros y ddwy flynedd ddiwethaf.
- Mwy o hysbysebu i hyrwyddo'r ysgol yn yr ardal - i wrthbrofi'r ddelwedd negyddol a grëwyd dros y blynyddoedd

- Cymorth gan yr AALl i ddenu/darbwyllo pobl leol i ddefnyddio cyfleusterau lleol er budd yr ardal leol

- I beidio caniatáu i ysgolion sy'n llawn dderbyn mwy o blant

- Egluro cofrestru deuol

4. Sesiwn Cwestiwn ac Ateb Terfynol (C = cwestiwn, A = Ateb, S= Sylw)

C: A oes cyfnod ble bydd y diffyg arian yn diystyru ein sylwadau?
A: Mae'r arian a roddir i'r Cyngor ar gyfer ysgolion gan LlCC yn lleihau ac mae gan y Cyngor ofynion eraill i'w bodloni hefyd. Gellir cadw 62 ysgol ond bob blwyddyn, byddai pob ysgol yn cael llai o arian fel na fyddent yn gallu goroesi yn y diwedd.
S: Efallai bod rhai ardaloedd yng Nghonwy ble byddai cyfuno babanod ac iau yn gweithio ond pe byddech yn cyfuno yma byddwch yn colli awyrgylch teuluol yr ysgolion llai.
A: Gellir creu'r un awyrgylch mewn ysgol fwy - ai'r adeilad neu'r staff sy'n creu'r ethos? Gellir cael dau adeilad ar wahân ar un safle pe byddech yn cyfuno.
S: Mae penaethiaid mewn ysgolion mawr eraill yn meddwl y gallant fodloni anghenion plant ond nid ydynt.
S: Mae dosbarthiadau llai yn bwysig. Mae dosbarthiadau llai yn gwneud gwahaniaeth i'r rhai sydd ag anghenion addysgol arbennig.
S: Rhaid canolbwyntio ar yr hyn sy'n dda yn y ddwy ysgol.
S: Mae'r ysgolion hyn yn annog plant i gymryd rhan mewn pethau ac maent yn cynnwys pob plentyn.
S: Dylai pawb longyfarch yr athrawon gan fod eu hagwedd yn ardderchog.
A: Nid fyddai unrhyw newidiadau posib yn seiliedig ar safon yr addysg yn yr ysgolion.
C: A yw safle Tan y Marian yn ddigon mawr i gyfuno'r ddwy ysgol?
A: Byddai angen astudiaeth dichonolrwydd i asesu hyn

Diolchodd GT i bawb am eu presenoldeb a'u cyfraniad i'r cyfarfod gan y cafwyd llawer o wybodaeth bwysig.

<u>Wal bryderon/syniadau</u>

Ysgol babanod Penmaenrhos – nodiadau

- A yw cyfuno yn debyg o ddod yn bolisi sirol?

- Fel ysgol unigol – a allwn ddisgwyl cael gwybod beth fydd yn digwydd i'n hysgol NI?

- Yn amlwg mae staff yn poeni am swyddi - a fydd unrhyw ddiswyddiadau? A fydd adleoli yn opsiwn? A fydd cyflogau yn cael eu diogelu? A fydd rhaid i staff ail-ymgeisio am eu swyddi?

- Mae gan ein hysgol Uned Adnoddau Anghenion Dysgu Ychwanegol ar y safle – beth fydd yn digwydd i hwn os cyfunir y ddwy ysgol?

- Pam fod ysgolion eraill yn cael derbyn palant sydd y tu allan i'w dalgylch?

- Mae caniatâd cynllunio ar gyfer 200 o dai newydd wedi ei gymeradwyo ar y tir yn Fferm Tir Mawr - a ydych wedi ystyried hyn?

- Mae gan ysgol fabanod ethos gwahanol i ysgol gynradd, mae gan nifer o'r plant hunan barch isel a diffyg hyder - mae arnynt angen amgylchedd i'w meithrin

- Efallai nad os gennym lawer o le y tu allan – ond mae'r hyn sydd gennym yn cael ei ddatblygu'n llawn ac rydym yn gobeithio rhentu rhan o'r cae dros y ffordd i'r ysgol i neud y mwyaf o'r lle sydd ar gael i ni.

- Cyfleusterau gwych i staff a phlant

- Gwerthfawrogi pob plentyn fel unigolyn - h.y. - "heb gael hyfforddiant toiled - ni all ddod i mewn" - rydym yn gweithio gyda rhieni ar raglenni hyfforddiant toiled etc

- Maes parcio staff a rhieni ar wahân

- Datblygiad sgiliau yn dda (nid ond rhai academaidd) – ond yn gymdeithasol a hyder

- Yn ddeniadol y tu allan a thu mewn

Ysgol Tan y Marian

- Nid yw ysgolion ar wahân yn golygu nad ydym yn cydweithio

- Beth am ganolbwyntio ar y 'da' – a'i wneud yn 'well'

- Mae'r plant yn hoff o fynd i'r ysgol ac eisiau cymryd rhan

- Ardal arbennig gydag anghenion arbennig (addysgol a chymdeithasol), gall ysgolion cywir adlewyrchu hyn

- Parodrwydd i dderbyn syniadau newydd

- Y ddwy ysgol yn datblygu'n dda

- Penderfyniad – costio gwerth ychwanegol

- Angen – ymgyrch cysylltiadau cyhoeddus

- Ysgolion lleol yn ychwanegu at deimlad o gymdeithas